1 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog)

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 ("y Rheoliadau") yn nodi gofynion gorfodol mewn perthynas â chamau disgyblu sy'n ymwneud â'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd; maent hefyd yn berthnasol i swyddog a oedd, ond ar adeg y camau disgyblu arfaethedig nid yw bellach, yn swyddog o'r fath, pan fo'r camymddwyn honedig, neu, yn ôl y digwydd, y rheswm dros y cynnig o ddiswyddo, wedi digwydd yn ystod y cyfnod pan oedd y swyddog dan sylw yn swyddog o'r fath.

Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu sefydlu gweithdrefn ar gyfer cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Adran a gyflogir ar delerau ac amodau JNC.

2 Bwriad

Bwriad y Rheol Sefydlog hon yw rhoi effaith i'r Rheoliadau, ond mae hefyd yn pennu gweithdrefn ddisgyblu ragnodol, sy'n ymgorffori gweithdrefnau enghreifftiol y JNC ar gyfer Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion Awdurdodau Lleol, gydag addasiadau, i'w defnyddio mewn achosion o honiadau yn erbyn y swyddog/swyddogion. Bydd yn cynnwys canllawiau cychwynnol ynghyd â gweithdrefn i'w dilyn ym mhob achos.

Os pennir mater yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd na chyfeirir ato yn y weithdrefn hon neu os oes gwrthdaro, y Rheoliadau sy'n cael y flaenoriaeth.

3 Dehongliadau

Y dehongliadau isod yw'r rhai sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau 2006 fel y'u diwygiwyd ac mae'r rhannau perthnasol yn cael eu hailadrodd isod. (Rheoliad 2):

a) ystyr "Deddf 1989" yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

b) ystyr "Deddf 2000 yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

c) ystyr "Deddf 2021" yw Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

d) ystyr "Prif Swyddog" yw:

- i) Y Prif Weithredwr;
- ii) Swyddog Monitro;
- iii) Prif Swyddog Cyllid
- iv) Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- v) Cyfarwyddwr Corfforaethol
- vi) Pennaeth Adran

ac mae unrhyw gyfeiriad at benodi neu benodiad arfaethedig Prif Swyddog yn cynnwys cyfeiriad at gyflogi neu gyflogaeth arfaethedig y cyfryw swyddog dan gontract cyflogaeth;

e) Ystyr "Prif Swyddog Cyllid" yw'r swyddog sydd â chyfrifoldeb, at ddibenion adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (gweinyddiaeth gyllidol) am weinyddu materion cyllidol yr awdurdod lleol;

f) “camau disgyblu” mewn perthynas ag aelod o staff awdurdod perthnasol yw unrhyw weithred a achosir gan gamymddwyn honedig a fuasai, o'i phrofi, yn ôl trefn arferol yr awdurdod, yn cael ei chofnodi ar ffeil bersonol yr aelod o'r staff ac sy'n cynnwys unrhyw gynnig i ddiswyddo aelod o'r staff am unrhyw reswm ac eithrio colli swydd, afiechyd parhaol neu lesgedd meddwl neu gorff, ond nid yw'n cynnwys methiant i adnewyddu contract cyflogaeth am dymor penodol oni ymrwymodd yr awdurdod perthnasol i adnewyddu'r cyfryw gontract;

g) "Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd" yn golygu'r swyddog a ddynodwyd o dan adran 8 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;

h) "Prif Weithredwr" yn golygu'r swyddog a ddynodwyd o dan adran 54 o Ddeddf 2022 (dynodiad ac adroddiadau'r Prif Weithredwr);

i) "Swyddog Monitro" yn golygu'r swyddog a ddynodwyd o dan adran 5(1) o Ddeddf 1989 (dynodiad ac adroddiadau'r Swyddog Monitro);

j) Ystyr "Swyddogion Statudol" yw:

i) Prif Weithredwr,
ii) Swyddog Monitro,
iii) Pennaeth Cyllid a
iv) Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

4 Egwyddorion Cyffredinol

a) Lle bo hynny’n briodol, ffefrir datrys mater yn anffurfiol yn hytrach na chymryd camau disgyblu ffurfiol.

b) Rhaid i bob achos lle mae ymchwiliad disgyblu neu gamau sy'n ymwneud â Phrif Swyddogion yn cael eu hystyried gael eu cyfeirio at y Swyddog Monitro neu gynrychiolydd/wyr enwebedig a fydd yn Swyddog Arweiniol at ddibenion y Rheolau Sefydlog hyn. Ym mhob achos arall, y Rheolwr Llinell neu gynrychiolydd/wyr enwebedig fydd y Swyddog Arweiniol.

c) Mae er budd pob parti i gynnal achosion yn gyflym. Cydnabyddir y byddai'n amhriodol gosod amserlenni a allai fod yn anodd eu cyflawni yn ymarferol.

d) Ni ddylid atal swyddog yn awtomatig a dylai fod yn ddewis olaf, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r achos. Bydd Asesiad Risg Atal yn llywio'r penderfyniad ym mhob achos ac yn cael ei adolygu yn rheolaidd.

e) Ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae gofyniad brys i atal, bydd gan swyddogion y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt hawl i gael cydymaith unigol a enwebwyd fel a ddiffinnir ym Mharagraff 10 Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 neu gynrychiolydd undeb llafur gyda hwy ym mhob cam.

5 Camau disgyblu

Ni ellir cymryd camau disgyblu (ac eithrio'r camau a nodir ym mharagraff 6) mewn perthynas â Phrif Weithredwr; Swyddog Monitro, Prif Swyddog Cyllid a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd y mae'r weithdrefn hon yn gymwys iddynt, gan yr awdurdod perthnasol, neu gan bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor lle cynrychiolir yr awdurdod perthnasol neu gan unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod perthnasol, ac eithrio yn unol ag argymhelliad mewn adroddiad a wnaed gan Berson Annibynnol Dynodedig (DIP) dan reoliad 9 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'i diwygiwyd.
(ymchwiliad i gamymddwyn honedig).

6 Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ("PPPS")

Y **Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** fydd y pwyllgor ymchwilio a disgyblu perthnasol ar gyfer y Rheolau Sefydlog hyn a bydd yn cyflawni'r swyddogaeth o gynnal yr ymchwiliad i ystyried y camymddwyn honedig a chymryd y camau a ganlyn.

(a) Rhyddhau'r Prif Swyddog o Fai

(b) Datgan a yw'r dystiolaeth y maent wedi'i chael (ac i ba raddau) yn cefnogi unrhyw honiad o gamymddwyn yn erbyn y Prif Swyddog

(c) Penderfynu ar unrhyw gamau disgyblu i'w cymryd, neu ystod o gamau sy'n ymddangos yn briodol i'w cymryd yn erbyn y Prif Swyddog gan gynnwys:

- Rhybudd ar lafar wedi'i recordio
- Rhybudd ysgrifenedig
- Rhybudd Ysgrifenedig Terfynol
- Diraddio
- Israddio (h.y. gostyngiad mewn cyflog).
- Diswyddo

(d) Rhaid i'r pŵer i gadarnhau diswyddo'r Prif Weithredwr gael ei arfer gan y Cyngor Llawn ei hun a dim ond i'r Cyngor Llawn y bydd y PPPS yn gwneud argymhelliad ar ddiswyddo. Mewn perthynas â'r Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid, y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r holl Brif Swyddogion eraill gwneir y penderfyniad gan y PPPS a'r Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion.

7 Aelodaeth y PPPS

At y dibenion hyn rhaid i'r PPPS:

a) Gynnwys **15** aelod o'r awdurdod; (mae'r pwyllgor eisoes wedi'i bennu).

b) Bod yn wleidyddol gytbwys yn unol ag adran 15 o Ddeddf 1989; a

c) Rhaid i o leiaf un aelod o'r Weithrediaeth fod yn aelod o'r PPPS Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion. Fodd bynnag, ni chaiff mwy na hanner aelodau'r PPPS a'r Pwyllgor Apêl Prif Swyddogion fod yn aelodau o weithrediaeth yr awdurdod.

A. Gweithdrefn Swyddogion Statudol

8 Proses y PPPS

At y dibenion hyn, rhaid i'r PPPS ystyried yr honiad o gamymddwyn a phenderfynu a ddylid ymchwilio ymhellach iddo o fewn un mis o'r dyddiad y cyfeiriwyd yr honiad o'r camymddwyn ato.

9 Ystyried yr Honiadau neu Faterion Eraill sy'n Destun Ymchwiliad

Bydd y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, yn hysbysu'r Swyddog Statudol yn ysgrifenedig am yr honiadau neu faterion eraill sy'n destun ymchwiliad ac yn darparu unrhyw dystiolaeth y mae'r PPPS i'w hystyried gan gynnwys yr hawl i glywed tystiolaeth lafar.

10 Y Cyfarfod Ymchwilio

a) Caniateir i'r Swyddog Statudol ymateb yn ysgrifenedig ac ar lafar yng nghyfarfod y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, er mai natur chwilysol sydd i gylch gwaith y Pwyllgor a ni chaniateir croesholi yn y Cyfarfod.

b) Bydd gan y Swyddog Statudol hawl i gael ei gynrychioli gan ei gynrychiolydd undeb llafur neu un cydymaith enwebedig fel y disgrifir ym Mharagraff 10 Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999.

c) Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod i ystyried yr honiad er mwyn penderfynu a oes honiad o gamymddwyn gan y Swyddog Statudol sy'n gofyn am ymchwiliad pellach gan Berson Annibynnol Dynodedig (DIP).

d) Bydd y Pwyllgor yn cael ei gynghori gan swyddog cyfreithiol bob amser.

e) Bydd y weithdrefn ar gyfer y Cyfarfod fel a ganlyn: -

i) Bydd y Rheolwr Ymgynghorol Adnoddau Dynol neu ddirprwy enwebedig yn amlinellu'r honiad ac yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth gefnogol y mae'r Awdurdod yn dymuno dibynnu arni;
ii) Bydd unrhyw dystion i'r awdurdod yn rhoi eu tystiolaeth a chaniateir cwestiynau;
iii) Bydd y Swyddog Statudol neu ei gynrychiolydd yn cyflwyno eu hamddiffyniad;
iv) Bydd unrhyw dystion ar gyfer y Swyddog Statudol yn rhoi eu tystiolaeth a chaniateir cwestiynau;
v) Yna bydd y Pwyllgor yn ymneilltuo i drafod a phenderfynu a oes achos sy'n haeddu ymchwiliad pellach;
vi) Bydd y Pwyllgor yn ailymgynnull i gyflwyno eu penderfyniad i'r Swyddog Statudol.

f) Bydd y Pwyllgor yn asesu unrhyw dystiolaeth a ddarperir i gefnogi'r honiadau ac unrhyw beth a ddywedwyd mewn amddiffyniad. Bydd y Pwyllgor wedyn yn penderfynu a yw mewn sefyllfa i wrthod yr honiad. Os na all, a bod angen ymchwiliad pellach, rhaid i'r Pwyllgor gyfeirio'r mater at y PAD (DIP).

g) Os yw'r Pwyllgor yn penderfynu nad oes angen unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r mater, dyna fydd diwedd yr honiad, ac ni fydd unrhyw gofnod yn cael ei roi ar ffeil bersonol y swyddogion perthnasol.

h) Os yw'r mater i'w gyfeirio at y PAD, bydd y Pwyllgor yn llunio'r honiadau a fydd yn sail i gylch gwaith y PAD, a bydd y rhain yn cael eu cyfathrebu i'r PAD a'r swyddog perthnasol yn ysgrifenedig.

j) Bydd y PPPS yn hysbysu'r Swyddog Statudol o'i benderfyniad yn ysgrifenedig.

11 Ataliad

a) Wrth gynnal ei drafodaethau, bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried a yw ataliad yn briodol. Mewn achosion disgyblu, gall ataliad fod yn briodol pan allai presenoldeb parhaus y Swyddogion Statudol yn y gwaith gyfaddawdu'r ymchwiliad neu amharu ar allu'r awdurdod i arfer ei swyddogaethau yn effeithlon, neu pan allai ailadrodd y drosedd honedig gael canlyniadau difrifol i'r Awdurdod.

b) O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r ataliad cyffredinol fod am uchafswm cyfnod o ddau fis o ddyddiad yr ataliad cychwynnol, a bydd y swyddog yn parhau i dderbyn cyflog llawn am holl gyfnod yr ataliad.

c) At ddibenion cyfrifo, bernir bod y cyfnod atal yn dechrau ar ddyddiad y diwrnod cyn i'r Pwyllgor benderfynu ar yr ataliad, gan gyfrif ymlaen ddau fis calendr o'r dyddiad hwn neu, o ddyddiad cynharach a osodwyd o dan baragraff 6.

d) Os yw'r Pwyllgor yn penderfynu bod ataliad yn briodol, bydd y rhesymau dros y penderfyniad i atal a thelerau unrhyw ataliad yn cael eu cyfathrebu'n ysgrifenedig i'r Swyddog Statudol. Yn unol â Rheoliad 9 o'r Rheoliadau, mae unrhyw ataliad yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd gan y PAD.

e) Gall yr awdurdod ofyn i'r PAD ystyried a ddylid awdurdodi parhau â'r ataliad dros yr uchafswm cyfnod o ddau fis, ond ni chaniateir parhau â'r ataliad heb iddo fod wedi'i awdurdodi'n benodol gan y PAD.

f) Dylai'r Swyddog Arweiniol adolygu'r angen am ataliad yn rheolaidd a lle bo'n bosibl dylid osgoi cyfnodau hir o ataliad. Gellir ystyried gweithio gartref hefyd fel dewis arall yn lle ataliad, ond mae hyn yn dibynnu ar yr honiad ac ymarferoldeb trefniant o'r fath.

g) Er bod ataliad dros dro yn weithred niwtral ac nid yw mewn unrhyw ffordd yn arwydd o euogrwydd na rhagderfyniad, mewn achosion o gamymddwyn difrifol posibl dylid atal y Swyddog Statudol fel arfer hyd nes yr ymchwiliad gan y PAD.

12 Person Annibynnol Dynodedig (“PAD”)

Os yw'n ymddangos i'r PPPS y dylai honiad o gamymddwyn gan y swyddog perthnasol gael ei ymchwilio ymhellach, rhaid iddo benodi person (“y PAD”) at ddibenion y rheol sefydlog (neu ddarpariaethau sy'n cael yr un effaith).

13 Penodi Person Annibynnol Dynodedig

Wrth benderfynu a ddylid penodi PAD, bydd y PPPS, wrth ystyried a oes honiad o gamymddwyn yn erbyn Swyddog Statudol y mae angen ymchwiliad pellach iddo, yn ystyried y ffactorau canlynol:

(a) A yw'r honiad o'r fath, pe bai'n cael ei brofi, a fyddai’n arwain at ddiswyddo neu gamau eraill a fyddai'n cael eu cofnodi ar ffeil bersonol y swyddog; a

(b) A oes tystiolaeth i gefnogi'r honiad sy'n ddigonol i fod angen ymchwiliad pellach.

Os bydd y prawf hwn wedi'i fodloni, bydd y PPPS yn parhau i benodi PAD.

Rhaid i awdurdod perthnasol dalu tâl rhesymol i berson annibynnol dynodedig a benodwyd gan y PPPS ac unrhyw gostau a dynnir wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan y rheoliad hwn, neu mewn cysylltiad â chyflawni'r swyddogaethau hynny.

14 Y Person Annibynnol Dynodedig a benodir

Y PAD a benodir:

a) yw'r person hwnnw y cytunir arno rhwng yr awdurdod perthnasol a'r Swyddog Statudol o fewn un mis o'r dyddiad y cododd y gofyniad i benodi'r PAD; neu

b) Os nad oes cytundeb o'r fath, yw'r person hwnnw a enwebir at y diben gan Weinidogion Cymru.

15 Beth all y Person Annibynnol Dynodedig ei wneud

1. Caiff y PAD gyfarwyddo:

a) Bod yr awdurdod yn diweddu unrhyw ataliad ar y Swyddog Statudol;

b) Bod unrhyw ataliad o'r fath i barhau ar ôl diwedd y cyfnod o ddau fis y cyfeirir ato yn 6;

c) Bod telerau unrhyw ataliad o'r fath i'w hamrywio yn unol â'r cyfarwyddyd; neu

d) Nad oes camau i'w cymryd (p'un ai gan yr awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod perthnasol) o ran camau disgyblu neu gamau disgyblu pellach yn erbyn y Swyddog Statudol, heblaw camau a gymerir ym mhresenoldeb, neu gyda chytundeb, y PAD, cyn bod adroddiad wedi'i lunio o dan is-baragraff 4.

2 Caiff y PAD arolygu unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud ag ymddygiad y Swyddog Statudol sydd ym meddiant yr awdurdod perthnasol, neu y mae gan yr awdurdod y pŵer i awdurdodi'r PAD i'w harchwilio;

3 Caiff y Person Dynodedig Annibynnol ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw aelod neu aelod o staff yr awdurdod perthnasol yn ateb cwestiynau ynghylch ymddygiad y Swyddog Statudol;

4 Rhaid i'r Person Dynodedig Annibynnol lunio adroddiad i'r awdurdod–

a) Yn datgan barn a yw'r dystiolaeth a gafwyd (ac, os felly, i ba raddau) y mae'r dystiolaeth a gafwyd yn ategu unrhyw honiad o gamymddwyn yn erbyn y Swyddog Statudol; ac

b) Yn argymell unrhyw gamau disgyblu sy'n ymddangos yn briodol i'r awdurdod perthnasol eu cymryd yn erbyn y swyddog perthnasol, a

c) Rhaid iddo heb fod yn hwyrach na'r amser y llunnir yr adroddiad o dan is-baragraff 4, anfon copi o'r adroddiad at y Swyddog Statudol.

5 Rhaid i'r Swyddog Statudol a'r awdurdod, ar ôl ymgynghori â'r PAD, geisio cytuno ar amserlen y mae'r PAD i ymgymryd â'i ymchwiliad yn unol â hi.

6 Pan na cheir cytundeb o dan baragraff 5, rhaid i'r PAD osod amserlen y mae'r person hwnnw'n ystyried ei bod yn briodol y dylid ymgymryd â'r ymchwiliad yn unol â hi.

7 Rhaid i'r PPPS ystyried yr adroddiad a gafodd ei baratoi gan y Person Dynodedig Annibynnol o fewn un mis ar ôl cael yr adroddiad hwnnw.

8 Mae'r weithdrefn ar gyfer derbyn honiadau o gamymddwyn neu allu neu chwalfa o ran ymddiriedaeth a hyder wedi'i nodi isod.

16 Cyfarfod y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion

1 Bydd y PPPS yn cyfarfod i ystyried yr adroddiad a bydd yn derbyn argymhellion y Person Dynodedig Annibynnol. Os yw'r PAD yn argymell peidio â chymryd unrhyw gamau disgyblu, mae'r Pwyllgor wedi'i rwymo i'r argymhelliad hwnnw. Fodd bynnag, os yw'r Person Dynodedig Annibynnol yn argymell diswyddo neu gosb ddisgyblu arall, mae'r penderfyniad ynghylch a ddylid gosod cosb llai na diswyddo yn parhau i fod yn benderfyniad i'r PPPS.

2 Caniateir i'r swyddog perthnasol neu ei gynrychiolydd annerch y PPPS cyn iddo gynnal ei drafodaethau. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau arferol, ni chaniateir galw unrhyw dystiolaeth.

3 Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau lle mae tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg ers yr ymchwiliad y dylid ei derbyn er budd tegwch. Rhagwelir y bydd amgylchiadau fel hyn yn brin a bydd y PPPS yn rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw geisiadau y dylid derbyn tystiolaeth newydd.

4 Yna bydd y PPPS yn trafod ac yn penderfynu ar unrhyw gamau disgyblu i'w cymryd a fydd wedyn yn cael ei gyfathrebu i'r partïon yn y cyfarfod os yw hynny'n ymarferol, ac ym mhob achos yn ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad ac yn hysbysu'r swyddog perthnasol o'u hawl i apelio.

B. Proses ar gyfer Prif Swyddogion ac eithrio'r Swyddogion Statudol

17 Cyffredinol

1. Isod nodir y gweithdrefnau i'w defnyddio mewn achosion sy'n ymwneud â disgyblaeth, ac unrhyw gynnig i ddiswyddo ar sail chwalfa mewn ymddiriedaeth a hyder.

2. Rhaid i unrhyw benderfyniadau yn y materion hyn fod yn unol â gofynion y gyfraith mewn perthynas â rheolau cyfiawnder naturiol a'r Rheoliadau Rheolau Sefydlog perthnasol sydd mewn grym ar y pryd.

3. Dylid ymdrin ag unrhyw weithdrefnau disgyblu cyn gynted â phosibl, ond rhaid mesur hyn yn erbyn yr angen i ymchwilio'r achos yn llawn a rhoi cyfle i'r Prif Swyddog ymateb yn llawn i'r cwynion.

18 Ataliad oherwydd camymddwyn honedig

Mae'r paragraff hwn yn berthnasol i'r weithred o atal swyddog at ddibenion ymchwilio i'r camymddwyn honedig sy'n achosi'r weithred; ar yr amod bod ataliad o'r fath ar dâl llawn a bod y cyfnod yn dod i ben heb fod yn hwyrach na diwedd dau fis o'r diwrnod cyntaf y daw'r ataliad i rym. Y Rheolwr Llinell fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad i atal.

19 Ymchwiliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion

1. Os yw'r Prif Weithredwr (neu eu cynrychiolwyr enwebedig) o'r farn bod digon o dystiolaeth i gyfeirio'r mater at y PPPS, dylid gwneud hyn drwy'r Gwasanaethau Democrataidd mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol.

2. Bydd y penderfyniad i gychwyn ymchwiliad disgyblu yn nwylo'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol petai gan y Prif Weithredwr fuddiant sy'n gwrthdaro, neu fel arall yn methu ymgymryd â'r swyddogaeth.

3. Bydd y Prif Weithredwr neu y Cyfarwyddwr Corfforaethol (yn unol a para 3) yn pennu'r weithdrefn ymchwilio mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol. Gellir comisiynu ymchwilwyr annibynnol â chymwysterau priodol i gynnal ymchwiliad.

4. Rhaid darparu adroddiad cyfrinachol ymlaen llaw yn amlinellu'r honiadau ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ddogfennol neu ategol arall i gefnogi'r cyfeiriad. Rhaid darparu'r adroddiad hwn hefyd i'r Prif Swyddog sy'n destun y cyfeiriad, ynghyd â chopi o'r polisi a'r weithdrefn hon.

20 Y Cyfarfod Ymchwilio

1 Caniateir i'r swyddog perthnasol ymateb yn ysgrifenedig ac ar lafar yng Nghyfarfod y Pwyllgor Ymchwilio er bod cylch gwaith y Pwyllgor yn chwilysol ei natur ac ni chaniateir croesholi yn y Cyfarfod.

2 Bydd gan y swyddog perthnasol yr hawl i gael ei gynrychioli gan ei gynrychiolydd undeb llafur neu un cydymaith unigol a enwebwyd fel y'i disgrifir gan Baragraff 10 o Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999.

3 Bydd y Pwyllgor yn cael ei gynghori gan swyddog cyfreithiol bob amser.

4 Bydd y weithdrefn ar gyfer Cyfarfod y Pwyllgor fel a ganlyn: -

(a) Bydd y Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol neu ddirprwy enwebedig yn amlinellu'r honiad ac yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth gefnogol y mae'r Awdurdod yn dymuno dibynnu arni;

(b) Bydd unrhyw dystion i'r awdurdod, gan gynnwys unrhyw ymchwilydd a benodir gan y Prif Weithredwr, yn rhoi eu tystiolaeth a chaniateir cwestiynau;

(c) bydd y Prif Swyddog neu ei gynrychiolydd yn cyflwyno eu hamddiffyniad;

(d) Bydd unrhyw dystion i'r Prif Swyddog yn rhoi eu tystiolaeth a chaniateir cwestiynau;

(e) Yna bydd y Pwyllgor yn ymneilltuo i drafod a phenderfynu a oes achos sy'n haeddu ymchwiliad pellach;

(f) Bydd y Pwyllgor yn ailymgynnull i gyflwyno eu penderfyniad i'r swyddog perthnasol. Bydd y Pwyllgor yn asesu unrhyw dystiolaeth a ddarperir i gefnogi'r honiadau ac unrhyw beth a ddywedwyd yn yr amddiffyniad. Bydd y Pwyllgor wedyn yn penderfynu a yw mewn sefyllfa i wrthod yr honiad.

5 Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu bod y mater yn cael ei wrthod, yna bydd hynny'n ddiwedd ar yr honiad, ac ni fydd unrhyw gofnod yn cael ei wneud ar ffeil bersonol y swyddog perthnasol.

6 Yna bydd y PPPS yn trafod ac yn penderfynu ar ba gamau disgyblu i'w cymryd, os o gwbl, a bydd hyn wedyn yn cael ei gyfathrebu i'r partïon yn y cyfarfod os yw'n ymarferol, ac ym mhob achos yn ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad ac yn hysbysu'r swyddog perthnasol o'u hawl i apelio.

21 Hawl i Apelio – Prif Swyddogion

1 Bydd gan y swyddog perthnasol hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y PPPS. Rhaid i apêl o'r fath fod yn ysgrifenedig a nodi'n fanwl beth yw sail/seiliau'r apêl. Rhaid ei gyflwyno i'r Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad y caiff y penderfyniad ysgrifenedig ei gyfathrebu iddynt.

2 Bydd yr apêl ar ffurf adolygiad o'r penderfyniad blaenorol a bydd yn cael ei hystyried gan y cyrff canlynol yn unol â Rheoliadau 2006 fel y'u diwygiwyd:

a) Mewn perthynas â'r Prif Weithredwr, cyfeirir yr apêl i'r Cyngor. Yn yr achos hwn, rhaid i unrhyw aelodau sydd wedi bod yn rhan o'r broses naill ai fel tystion neu aelodau o Bwyllgor Disgyblu Prif Swyddogion ymatal rhag mynychu;

b) Mewn perthynas â'r holl Swyddogion eraill, bydd yr apêl i'r Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion ;

c) Caniateir i'r swyddog perthnasol neu ei gynrychiolydd enwebedig annerch y Cyngor/y Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion, ond ni chaniateir iddynt gyflwyno tystiolaeth newydd ac eithrio yn unol â'r ystyriaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 18.3;

d) Yna bydd y Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion / Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar ba gamau i'w cymryd, os o gwbl, a bydd hyn wedyn yn cael ei gyfathrebu i'r partïon yn y cyfarfod os yw'n ymarferol, ac ym mhob achos yn ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau dros y penderfyniad;

e) Mae penderfyniad y Pwyllgor Apeliadau Prif Swyddogion/Cyngor yn derfynol ac nid oes hawl pellach i apelio;

f) Ni fydd unrhyw gŵyn yn cael ei hystyried mewn perthynas â'r weithdrefn hon nac unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgorau.